

# Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru

**Diweddariad mis Awst 2022**

Mae mis wedi mynd heibio ers ein cylchlythyr cyntaf a dyna i chi fis a gawsom! Daeth dau ddigwyddiad mawr â channoedd ar gannoedd o ymwelwyr i Bowys a Cheredigion, sef y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol**.**

Am y tro cyntaf ers pandemig Covid-19, dyma gyfle i fusnesau a sefydliadau rwydweithio yn y digwyddiadau hyn.

I rai, dyma'r cyfle cyntaf i gwrdd, gan gynnwys cyd-gadeiryddion Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, y Cynghorydd James Gibson-Watt Arweinydd Cyngor Sir Powys a'r Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion a gafodd eu cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf yn y Sioe Fawr[1]. Roedd hyn yn gyfle i gadarnhau eu hymroddiad i gydweithio i gyflawni Bargen Twf Canolbarth Cymru.

[1] https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/newyddion/parhau-i-gydweithio/



*1 - Y Cynghorydd James Gibson-Watt a'r Cynghorydd Bryan Davies.*

Yn y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod, gallai busnesau lleol arddangos eu cynnyrch a'u gwasanaethau, ynghyd â'r nifer fawr o gyfleoedd sgiliau a chyflogaeth sydd yn y Canolbarth.

Felly, yn y rhifyn hwn rydym yn canolbwyntio ar Sgiliau, yn enwedig Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – beth ydyw, y cynnydd hyd yn hyn, y cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a hefyd Arolwg Cyflogaeth a Sgiliau'r Canolbarth sy'n cau canol dydd ar ddydd Gwener **09 Medi**, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd rhan!




*2 - Coleg Ceredigion Cookery Demonstration at Pentre Ceredigion*

*Eisteddfod Genedlaethol 2022*

Bydd y cylchlythyr hwn yn ffordd reolaidd o gyfathrebu gyda'n rhanddeiliaid/aelodau, a byddwn yn chwilio am ffyrdd o wella'r ffordd yr ydym yn cyfleu ein newyddion. Felly, os oes gennych chi unrhyw adborth, sylwadau neu newyddion perthnasol i'w cynnwys yma, hoffem glywed gennych.

Helpu i dyfu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

***Tîm Tyfu Canolbarth Cymru***

Darllenwch ymlaen i wybod rhagor am:

- Beth yw Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y Canolbarth?
- Arolwg Cyflogaeth a Sgiliau'r Canolbarth
- Blaengynllun gwaith Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y Canolbarth

- Cyfarfod Blynyddol y Bartneriaeth

## Beth yw Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y Canolbarth?



Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (RSP) yn perthyn o dan ymbarel ehangach Tyfu Canolbarth Cymru. Mae'r Partneriaeth Sgiliau Canolbarth Cymru yn un o bedair partneriaeth ranbarthol yng Nghymru. Mae'n bartneriaeth a arweinir gan fusnesau'n bennaf, gan weithio gydag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid ledled y rhanbarth i ddeall y ddarpariaeth sgiliau ac anghenion farchnad lafur er mwyn sbarduno buddsoddiad sy'n bodloni gofynion cyflogwyr a'r gweithlu.

**Ffeithiau Cyflogaeth a Busnes Canolbarth Cymru:**

- 95,400 o bobl mewn cyflogaeth yn y Canolbarth, gyda chyfraddau gweithgarwch economaidd yn unol â chyfartaleddau Cymru a'r DU, wedi'i sbarduno gan lefelau uchel o hunangyflogaeth.
- Mae 12,660 o fusnesau sydd wedi'i cofrestru ar gyfer TAW yn y Canolbarth. Mae gan y sylfaen fusnes gyfran uchel iawn o ficrofusnesau, mwy na 95% gyda llai na 10 o weithwyr.
- Mae lefelau diweithdra yn y rhanbarth yn gymharol isel, sef 3.9% ym mis Ionawr 2022, bron i hanner y raddfa ar gyfer Cymru a'r DU, ac maer rhanbarth wedi gweld gwelliant mwy yn nifer y di-waith o'i gymharu â Chymru ers 2001.

Mae'r Bartneriaeth yn cefnogi strategaethau a meysydd polisi allweddol Llywodraeth Cymru drwy ddarparu safbwynt rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys data sylfaenol ar gyfer cynllunio addysg bellach gan ddefnyddio gwybodaeth a arweinir gan gyflogwyr a data gwybodaeth am y farchnad lafur.

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru
Mid Wales Regional Skills Partnership

## Arolwg Cyflogaeth a Sgiliau'r Canolbarth




**Mae busnesau a sefydliadau dros Canolbarth Cymru yn cael eu hannog i lenwi arolwg ar gyflogaeth a sgiliau.**

Bydd canlyniadau'r arolwg yn helpu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y tirlun sgiliau ar draws y rhanbarth a chysylltu cyllid sgiliau â'r galw gan gyflogwyr. Lansiwyd arolwg rhanbarth Canolbarth Cymru dydd Llun 25 Gorffennaf ac mae'n rhedeg tan canol dydd, dydd Gwener 09 Medi.

Yn 2019, lansiodd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) Gynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau tair blynedd sydd wedi cael eu defnyddio i siapio blaenoriaethau sgiliau i gyflogwyr ar draws rhanbarthau perthnasol a dylanwadu ar y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig drwy sectorau Addysg Bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Dywedodd y Cynghorydd Wyn Thomas, yr Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yng Nghyngor Sir Ceredigion a'r Cynghorydd David Selby, yr Aelod Cabinet dros Bowys Fwy Ffyniannus yng Nghyngor Sir Powys, sy'n cynrychioli Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru: "Dros y tair blynedd diwethaf, cafwyd newid sylweddol i'r sgiliau sy'n ofynnol gan

ddiwydiant i lywio eu busnesau yn eu blaen mewn byd ôl-bandemig. Mae'n bwysicach nac erioed ein bod ni'n sicrhau fod pobl yn meithrin y sgiliau cywir mewn colegau, prifysgolion a prentisiaethau. Rydym yn annog pob busnes a sefydliad ar draws y rhanbarth i lenwi'r arolwg cyflogaeth a sgiliau i helpu i lywio ein Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau newydd ar gyfer 2022-2025."

I gymryd rhan yn yr arolwg, ewch i https://www.dweudeichdweudpowys.cymru/arolwg-cyflogaeth-a-sgiliau. Neu, os hoffech ddeall gwaith y Partneriaeth ymhellach, cysylltwch ag Aggie Caesar-Homden, Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Canolbarth Cymru: aggie.caesar-homden@powys.gov.uk[2] / 01597 826713

**Arolygon Cyflogaeth a Sgiliau mewn rhanbarthau eraill ledled Cymru**

Er mwyn cryfhau'r wybodaeth a gasglwyd ledled Cymru, gwahoddir busnesau/sefydliadau eraill mewn rhanbarthau eraill i gwblhau eu harolwg sgiliau RSP lleol:

- De-ddwyrain Cymru (Dinas Caerdydd): https://www.smartsurvey.co.uk/s/ArolwgSgiliauCyflogwyr_EmployersSkillsSurvey_2022/
- De-orllewin Cymru: https://www.surveymonkey.co.uk/r/7LMCTBR
- Gogledd Cymru: Caeodd yr arolwg yn ddiweddar a chafwyd cyfradd ymateb gadarnhaol iddo. Os na wnaethoch chi gael cyfle i ymateb i'r arolwg, ac am roi mewnbwn, cysylltwch: sianlloydroberts@uchelgaisgogledd.cymru[3]

[2] https://aggie.caesar-homden@powys.gov.uk
[3] https://sianlloydroberts@uchelgaisgogledd.cymru

## Edrych ymlaen i'r dyfodol




Mae'r Bartneriaeth yn pontio'r bwlch rhwng addysg ac adfywio yn y gobaith o greu economi gref a bywiog sydd ag arloesedd, twf a gweithlu galluog yn sail iddi.

Darllenwch ymlaen i gael gwybod rhagor am flaenraglen waith y Bartneriaeth a ffyrdd y gallwch chi helpu gyda chynlluniau ar gyfer y dyfodol:

**Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Tair Blynedd newydd ar gyfer 2022-2025:**

Bydd y Cynllun yn nodi sectorau allweddol, blaenoriaethau sgiliau a chyflogaeth ar gyfer y rhanbarth, yn unol â chynlluniau economaidd rhanbarthol, gan gynnwys y Cynllun Twf.

Bydd y newidiadau i flaenoriaethau sgiliau a chyflogaeth yn ymwneud â Sero Net, Digidol, y Gymraeg, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, Addysg Bellach a Phrentisiaethau.

Bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyfleoedd a all ddeillio o fewnfuddsoddiadau neu brosiectau rhanbarthol sy'n bodoli eisoes neu'n bosibl.
- Darparu addysg wych ar yr un pryd â gwella cysylltiadau â busnes.
- Safbwyntiau ar sut i adeiladu sgiliau'r gweithlu, hyrwyddo prentisiaethau, STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) a dulliau newydd i ddenu talent i bob rhanbarth.

- Helpu i leihau'r prinder sgiliau sy'n wynebu busnesau yn y sectorau twf rhanbarthol ac is-ranbarthol.

Bydd y Cynllun hefyd yn canolbwyntio ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin a rôl y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wrth weithio gyda rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol:**

Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen ar gyfer galwedigaeth ac maent yn sail i ystod o gymwysterau prentisiaeth a galwedigaethol oedolion ledled y Deyrnas Unedig a thramor.

Mae gan y Partneriaethau rôl bwysig wrth sicrhau bod y Safonau yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ateb anghenion cyflogwyr a sectorau yn y rhanbarth.

Bydd y Bartneriaeth yn datblygu atodiad Safonau i'w chynllun cyflogaeth a sgiliau ar gyfer 2022-25.

Bydd y Bartneriaeth yn trefnu galwedigaethau yn ôl lefel codau Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) er mwyn cyfeirio cyllid/adnoddau i lenwi bylchau penodol.

**Gallwch helpu'r Bartneriaeth i gasglu gwybodaeth ar gyfer y Safonau trwy rannu gwybodaeth am y canlynol:**

- Galwedigaethau blaenoriaeth yn y rhanbarth.
- Galwedigaethau sy'n dod i'r amlwg neu'n gweld twf, sy'n gofyn am sgiliau penodol ac/neu gymwysterau newydd.
- Galwedigaethau sy'n wynebu newidiadau posibl i arferion gwaith/cyd-destun gwaith, newidiadau technolegol ac/neu reoliadau newydd neu ofynion deddfwriaethol (e.e. iechyd a diogelwch).
- Galwedigaethau sy'n dirywio/gwanhau.



**Addysg Bellach (AB) a Phrentisiaethau:**

Mae'n hollbwysig bod gennym system brentisiaethau sy'n ymatebol ac yn hyblyg i anghenion cyflogwyr ac unigolion, er mwyn cael economi gystadleuol, llawn sgiliau sydd o fudd i bobl ledled y wlad.

Er mwyn helpu'r Bartneriaeth Sgiliau i nodi blaenoriaethau rhanbarthol ac/neu is-ranbarthol ar gyfer darpariaeth AB a chael cyd-destun a rhesymeg glir i gyd-fynd â nhw, rydym yn gwahodd cyflogwyr i gyflwyno tystiolaeth anecdotaidd a chadarn i gefnogi'r maes gwaith hwn. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, sectorau y mae Brexit neu COVID-19 yn effeithio arnynt neu'r angen i ddenu talent a setiau sgiliau penodol i'r rhanbarth oherwydd prosiect mewnfuddsoddi arfaethedig neu sydd eisoes yn bodoli.

**Y Gymraeg:**

Mae strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr[4] Llywodraeth Cymru am greu rhagor o siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd ar yr iaith o ddydd i ddydd.

Mae'r Strategaeth hefyd yn datgan y nod trawsnewidiol o ddiwygio'r ddarpariaeth addysg ôl-16 a sgiliau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cyfle i barhau i ddatblygu sgiliau dwyieithog i gefnogi economi ffyniannus.

Bydd y Bartneriaeth Sgiliau yn cynnwys adran fanwl ar sgiliau Cymraeg yn eu cynllun ar gyflogaeth a sgiliau ar gyfer y tair blynedd 2022-25.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gweithlu a rhanddeiliaid allweddol eraill yn gallu manteisio'n llawn ar gyfleoedd i nodi anghenion sgiliau Cymraeg yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw faes ym Mlaengynllun Gwaith y Bartneriaeth, mae pob croeso i chi gysylltu ag Aggie Caesar-Homden, Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y Canolbarth: aggie.caesar-homden@powys.gov.uk[5] /01597 826713.



[4]https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg
[5]https://aggie.caesar-homden@powys.gov.uk/

## Cyfarfod Blynyddol y Bartneriaeth



Caiff Cyfarfod Blynyddol Partneriaeth y Canolbarth ei gynnal ddydd Llun 12 Medi a chyhoeddir y Cadeirydd newydd bryd hynny.

Bydd angen i ymgeiswyr sydd â diddordeb mewn gwneud cais am swydd y Cadeirydd neu ymuno â Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Bydd Cadeirydd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Canolbarth Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth helpu i sbarduno gweledigaeth y rhanbarth ar gyfer dysgu a sgiliau, gan gynrychioli llais y sector preifat yn y rhanbarth er mwyn dylanwadu a chefnogi penderfyniadau rhanbarthol a hyrwyddo'r rhanbarth ar lefel Genedlaethol.

Bydd hyn yn gofyn am unigolyn sy'n gallu dangos:

- Ei fod/ei bod yn Arweinydd yn y Diwydiant, yn enwedig o'r sectorau a nodir yn Gweledigaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Mae modd gweld y weledigaeth ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru, http://tyfucanolbarth.cymru/blaenoriaethautwfstrategol [6]
- Gwybodaeth a phrofiad o'r gwahanol sectorau diwydiant yn y Canolbarth;
- Profiad cryf o'r sector preifat;
- Arweinyddiaeth gref ac ethos partneriaeth;
- Dealltwriaeth o'r amgylchedd strategol ehangach ac ystyried hyn wrth gyflwyno argymhellion

Mae'r swydd yn un wirfoddol gydag ymrwymiad o ryw 12 diwrnod y flwyddyn, yn fras.

Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau'r manylion a amlinellir yn y ffurflen sydd ar dudalen Dogfennau ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru, http://tyfucanolbarth.cymru/dogfennau a dychwelyd y ffurflen i

[6] http://tyfucanolbarth.cymru/blaenoriaethautwfstrategol

aggie.caesar-homden@powys.gov.uk erbyn Hanner dydd, ddydd Iau 25 Awst a chynhelir y cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Llun 29 Awst.

I gael rhagor o wybodaeth am y rôl neu i drafod y cyfle ymhellach, cysylltwch â Rheolwr Partneriaeth yr RSP: Aggie Caesar-Homden, aggie.caesar-homden@powys.gov.uk / 01597 826713

## Edrych Ymlaen

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales[7]

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e-bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at growingmidwales@ceredigion.gov.uk.

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

Undeb Ewropeaidd
European Union

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

[7] https://www.linkedin.com/company/growing-mid-wales